# CERDDORIAETH, DRAMA A DAWNS

**Mae'r diwydiant hwn yn cylchdroi o gwmpas berw creadigol, egni a chymhelliant. Os ydych yn teimlo'n gartrefol ar y prif lwyfan, yn y stiwdio recordio neu ar y llawr dawnsio, yna dyma'r diwydiant i chi.**

Darllenwch am y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

### Celfyddydau Perfformio

A yw adlonni a rhoi perfformiad yn bwysig i chi? Yna mae actio yn ddelfrydol i chi! Mynegwch eich creadigrwydd ac emosiwn drwy berfformio. Gweithiwch yn y West End, neu ar hoff opera sebon y genedl, neu ar y sgrin fawr hyd yn oed. Delfrydol i'r rheiny y byddai'n well ganddynt weithio oriau hyblyg gan y gallwch weithio oriau hirion neu ar benwythnosau.

### Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yn swnio'n well gyda chi. Yn amrywiol ac eang, mae swyddi yn y diwydiant cerddoriaeth yn cynnwys cerddorion, cyfansoddwyr caneuon, cynhyrchwyr a rheolwyr, a llawer mwy. O weithio ar y radio, mewn gwyliau ac yn stiwdio recordio, mae gwahanol lwybrau i'w dilyn. Yn ogystal, gallwch fynd i newyddiaduraeth, addysgu a marchnata, gan arbenigo mewn cerddoriaeth.

### Dawns

Ymunwch â'r 30,000 o bobl sydd wedi'u cyflogi yn y sector dawns! Byddwch yn ymroddedig, disgybledig ac yn gweithio'n galed i berfformio, gan y gellir ymarfer bob awr o'r dydd. O jas, swing, hip-hop a dawns neuadd, gallwch ddewis y steil sy'n addas i chi. Mae swyddi hefyd yn cynnwys coreograffi, addysgu a therapi os oes well gennych yrfa oddi wrth y prif lwyfan.

## Dolenni Defnyddiol

www.arts.wales
Cyngor Celfyddydau Cymru
www.nyaw.org.uk/national-youth-theatre-of-wales
Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

**7.1%**
**CYNNYDD MEWN SWYDDI AR GYFER Y SECTOR HWN YNG NGHYMRU**

**£30K**
**CYFLOG NODWEDDIADOL AR GYFARTALEDD YN Y DIWYDIANT HWN IN WALES**

(ffynhonnell EMSI)

**Cerddorion yn ennill ar gyfartaledd £40k**

**Cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr yn ennill ar gyfartaledd £50k**

**Mae Peirianwyr Teledu, Fideo a Sain yn ennill ar gyfartaledd £35k**

### Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

| | Lefel | BG | C |
|---|---|---|---|
| Cerddoriaeth | 3 | | ✓ |
| Cerddoriaeth (Llwybr Technoleg) | 3 | | ✓ |
| Perfformiad a Thechnoleg Cerdd | 2 | | ✓ |
| Ymarferwyr Cerdd | 3 | ✓ | |
| Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu | 3 | | ✓ |
| Y Celfyddydau Perfformio | 2 | | ✓ |